

job dda ohoni. Os oes gen ti'r ddawn i ddysgu pobl eraill, gwna hynny'n gydwybodol. ⁸ Os wyt ti'n rhywun sy'n annog pobl eraill, bwrw iddi! Os wyt yn rhannu dy eiddo gydag eraill, bydd yn hael. Os oes gen ti'r ddawn i arwain, gwna hynny'n frwd. Os mai dangos caredigrwydd ydy dy ddawn di, gwna hynny'n llawen. ⁹ Rhaid i'ch cariad chi fod yn gariad go iawn - dim rhyw gariad arwynebol. Yn casáu y drwg â chasineb perffaith, ac yn dal gafael yn beth sy'n dda. ¹⁰ Byddwch o ddifri yn eich gofal am eich gilydd, a dangos parch at eich gilydd. ¹¹ Peidiwch byth â gadael i'ch brwdfrydedd oeri, ond bod ar dân yn gweithio i'r Arglwydd yn nerth yr Ysbryd Glân. ¹² Byddwch yn llawen wrth feddwl am y cwbl sydd gan Dduw ar eich cyfer chi. Byddwch yn amyneddgar tra dych chi'n dioddef, a daliwch ati i weddio. ¹³ Rhannwch beth sydd gynnoch chi gyda phobl Dduw sydd mewn angen. Ewch allan o'ch ffordd i roi croeso i ymwelwyr yn eich cartrefi bob amser.

(Rhufeiniad, pennod 12, adnodau, 3 - 13 beibl.net)

Beth mae'r adnodau hyn yn dweud wrthyh:

a) *am eich rôl chi o fewn yr eglwys?*

b) *am fod yn arweinydd yn yr eglwys?*

2. Torrwch allan luniau o bapurau dyddiol a lleol o'r arweinwyr sydd yn y newyddion. Trafodwch gyda'r grŵp y dulliau gwahanol o arwain maen nhw'n eu cynrychioli a beth mae'r storïau amdanynt yn dweud wrthym ynglŷn â'u harweinyddiaeth.

Fel arall gallech ofyn ymlaen llaw i aelodau'r grŵp ddod â lluniau gyda nhw fel enghreifftiau o arweinwyr da/drwg, cryf/gwan, doeth/ffôl ayb.

3. Gofynnwch i'r grŵp feddwl am emynau sy'n cyfeirio at arwain. Pa un ohonynt yw eu hoff emyn a pham?

Noder: Bydd y ffilm nesaf ar gael i'w lawr lwytho o wefan yr Undeb ar ddiwedd mis Mawrth 2018.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Cynllun Y Ffordd



Y Ffordd y Daethom

Blwyddyn 2, Rhan 2

Chwefror 2018

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Fe welwch fod y ffilm 'ARWAIN YN YR EGLWYS' wedi'i rhannu yn bedair pennod gyda chyflwyniad ar y dechrau. Awgrymwn eich bod yn rhannu'r ffilm fel mae'n addas i chi. Ceir cwestiynau ar gyfer y penodau unigol ar waelod y dudalen hon a thudalennau 2 a 3.

Cyflwyniad

Pennod 1: *Cyflwyno'r Arweinydd*

Pennod 2: *Gwaith yr Arweinydd*

Pennod 3: *Hyfforddi'r Arweinydd*

Pennod 4: *Yr Her i Arwain*

Ar dudalennau 3 a 4 o'r daflen hon mae nifer o weithgareddau eraill i helpu llenwi'r sesiynau, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

***Beth allwn ni fel eglwys ei wneud
yn dilyn y drafodaeth hon?***

Cwestiynau i'w trafod

Cyflwyniad a Phennod 1: Cyflwyno'r Arweinydd

(Awgrymwyn eich bod yn dechrau'r sesiwn hon gyda darlleniad o loan 15: 1-16)

1. Meddylwch am y darlun o'r 'Winwydden a'r canghennau.' Beth yw'r neges i chi? Ydy'r darlun yn ddealladwy i bobl heddiw? A allwch chi feddwl am ddarlun fyddai'n fwy ystyrlon?
2. Beth sy'n gyfrifol bod nifer y gweinidogion yn lleihau?
3. Beth yw cryfderau a gwendidau gofalu am y capel lle y cawsoch chi eich magu neu'r capel lle'r ydych yn aelod?
4. 'Mae gwir arweinydd yn gosod cyfeiriad, yn gweithredu cynlluniau ac yn ysgogi pobl.' Trafodwch.
5. Oes gan aelodau'r grŵp brofiad o fathau eraill o arweinyddiaeth eglwys ar wahân i eglwys gynulleidfaol? Oes gan y dealltwriaethau eraill hyn rhywbeth i'w gynnig i ni?

Pennod 2: Gwaith yr Arweinydd

1. Ydy eich eglwys yn rhoi digon o gyfle i holl doniau'r aelodau gyfrannu at ei bywyd?
2. 'Gwaith yr arweinydd yw cael pawb i gyd-weithio.' Trafodwch
3. A allwch feddwl am enghraifft pan fu i'ch eglwys chi ymateb i angen arbennig o fewn yr eglwys? Oes yna anghenion arbennig eraill o fewn yr eglwys y dylid ymateb iddynt?
4. Beth sy'n eich gwneud chi'n rhwystredig am fywyd eich eglwys? Beth welwch chi fel yr her fwyaf i'ch eglwys?
5. Ym mha ffyrdd mae eich eglwys chi yn gwasanaethu'r gymuned?

Pennod 3: Hyfforddi'r Arweinydd

1. Pa fath o hyfforddiant ffurfiol sydd ei angen ar berson i arwain cynulleidfa?
2. Beth yw cryfder 'dysgu trwy brofiad?' Oes yna wendidau posibl?

3. Beth sydd wedi eich helpu chi i loywi eich perthynas â Duw, lesu a'r ffydd Gristnogol?
4. A allwch chi feddwl am enghraifft ddiweddar o weledigaeth yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol (*Does dim rhaid iddi fod yn enghraifft o fewn y capel*)? Beth oedd yn bennaf gyfrifol am hynny?
5. Pa broblemau yn y gymuned fydddech chi'n hoffi derbyn hyfforddiant ar sut i ymateb iddynt?

Pennod 4: Yr Her i Arwain

1. Beth yw'r her fwyaf sy'n wynebu arweinydd eglwys heddiw?
2. Pa mor ymwybodol o'r dyfodol yw eich eglwys chi? Beth sy'n cael ei wneud i gynllunio'r olyniaeth (*succession planning*)?
3. Pryd oedd y tro diwethaf i'ch eglwys chi 'gamu allan o'r cwch'?
4. 'Wrth fod yn rhan o benderfyniadau, y mae pawb yn gallu eu perchnogi' Ydych chi'n teimlo eich bod yn perchnogi'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan eich eglwys chi? Os na, pam?
5. Beth fyddai yn eich dal chi yn ôl rhag cyflwyno eich hun fel arweinydd?

Gweithgarwch Ychwanegol

1. Darllenwch yr adnodau canlynol

Gadewch i mi ddweud hyn wrthoch chi, fel rhywun mae Duw wedi bod mor garedig ato: Peidiwch meddwl eich bod chi'n well nag ydych chi. Byddwch yn onest gyda chi'ch hun wrth ystyried faint o ffydd mae Duw wedi'i roi i chi. ⁴ Mae'r eglwys yr un fath â'r corff dynol - mae gwahanol rannau i'r corff, a dydy pob rhan o'r corff ddim yn gwneud yr un gwaith. ⁵ Yn yr eglwys dyn ni gyda'n gilydd yn gwneud un corff, sef corff y Meseia. Mae pob un ohonon ni'n rhan o'r corff ac mae arnon ni angen pawb arall. ⁶ Mae Duw wedi rhoi doniau gwahanol i bob un ohonon ni. Os ydy Duw wedi rhoi'r gallu i ti roi neges broffwydol, gwna hynny pan wyt ti'n gwybod fod Duw am i ti wneud. ⁷ Os mai helpu pobl eraill ydy dy ddawn di, gwna